

## Warm Welcome Scholarships

---

# Summary webpage (Cymraeg)

## Ysgoloriaethau Croeso cynnes

Lansiwyd Cynllun Ysgoloriaethau Croeso Cynnes i gefnogi unigolion cymwys yng ngwledydd Prydain sydd â chysylltiadau ag Affganistan i gael mynediad at addysg uwch.

### Cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig 'Ymgyrch Croeso Cynnes' ar 1 Medi 2021 i gefnogi'r rhai a adleolwyd i wledydd Prydain yn ystod Ymgyrch Pitting i gael mynediad hanfodol at iechyd, addysg a chymorth i gyflogaeth er mwyn integreiddio'n llawn i gymdeithas.

Fel rhan o'r pecyn cymorth hwn, sefydlwyd cynllun ysgoloriaeth 'Croeso Cynnes' a ariannwyd gan Adran Addysg Lloegr i gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt i gael mynediad at ysgoloriaethau prifysgol israddedig ac ôl-raddedig yng ngwledydd Prydain.

Mae Adran Addysg Lloegr yn gweithio mewn partneriaeth â'r British Council fel partner cyflawni ledled Prydain y cynllun.

### Ynglŷn â'r Ysgoloriaethau

Bydd Ysgoloriaethau Croeso Cynnes yn cefnogi ysgolheigion cymwys i gyflawni astudiaeth lawn amser wyneb yn wyneb gyda darparwyr addysg uwch yng ngwledydd Prydain ar y tair lefel astudio ganlynol:

- Israddedig: am uchafswm o dair blynedd, neu bedair mlynedd yn yr Alban
- Meistr a addysgir: am uchafswm o flwyddyn

- 
- PhD: am uchafswm o dair blynedd

Mae dwy raglen ar wahân yn y cynllun:

- **Ysgoloriaethau yn ystod y Flwyddyn** ar gyfer ysgolheigion cymwys sy'n astudio yng ngwledydd Prydain ar hyn o bryd
- **Ysgoloriaethau Gradd Lawn** ar gyfer ysgolheigion cymwys a fydd yn dechrau eu hastudiaethau ym mis Medi/Hydref 2022

Gweler y tudalennau isod i ddysgu mwy, gan gynnwys manylion llawn y rhaglenni ysgoloriaeth, meini prawf cymhwysedd, a sut i ymgeisio. Mae gwybodaeth am Gynllun Ysgoloriaethau Croeso Cynnes ar gael i'w lawrlwytho a'i gweld mewn fformat PDF: